

Pam dylwn i gael mesurydd clyfar fel tenant preifat?



Am fesuryddion clyfar

Mesuryddion clyfar yw'r genhedlaeth nesaf o fesuryddion nwy a thrydan. Maen nhw'n cael eu gosod mewn cartrefi ar draws Prydain Fawr heb unrhyw gost ychwanegol, i ddisodli mesuryddion traddodiadol (gan gynnwys mesuryddion allwedd rhagdal). Mae mesuryddion clyfar yn mesur faint o nwy a thrydan rydych chi'n eu defnyddio bron mewn amser real, yn ogystal â faint mae'n ei gostio i chi, ac yn dangos hynny ar sgrîn ynni cartref gyfleus.

Pwy sy'n gyfrifol am osod mesurydd clyfar?

Yn aml gall fod dryswch ynghylch pwy sy'n gyfrifol am osod mesurydd clyfar. Os mai chi sy'n talu'r biliau nwy neu drydan yn eich cartref a rentir, gallwch chi ddewis cael gosodiad mesurydd clyfar. Argymhellir i chi ddweud wrth eich landlord cyn cael un. Efallai y bydd rheolau yn eich contract ynghylch sut mae ynni'n cael ei gyflenwi, gan gynnwys y math o fesurydd all gael ei osod. Os yw eich cytundeb tenantiaeth yn dweud bod angen caniatâd gan eich landlord i newid y mesurydd yn eich cartref, dywed Ofgem na ddylai eich landlord neu asiantaeth osod eich atal yn afresymol rhag cael mesurydd clyfar.

Os hoffech chi ofyn i'ch landlord am gael mesurydd clyfar, gallwch ddefnyddio ein templedi cyfleus ar ein gwefan [yma](#).

Y buddion ar gyfer landlordiaid yw

Mae llawer o fanteision i gael gosodiad mesurydd clyfar. Gall mesurydd clyfar helpu chi i arbed arian trwy ddangos faint o ynni sy'n cael ei ddefnyddio bron mewn amser real, a all annog gostwng y defnydd o ynni ac yn ei dro cyfrannu at ostwng ein hól troed carbon.

Fel tenant preifat, mae mesuryddion clyfar yn cynnig nifer o fanteision i chi:

- mae mesuryddion clyfar yn gadael i chi weld faint rydych chi'n ei wario mewn punnoedd a cheiniogau ar eich sgrîn ynni cartref, gan helpu chi i fynnu rheolaeth ar eich biliau ynni
- mae mesuryddion clyfar yn anfon darlenniadau awtomatig at eich cyflenwr gan olygu y bydd eich biliau'n gywir, a gall cael mynediad i'ch hanes defnydd wneud rhannu biliau aelwyd rhwng y rhai rydych yn rhannu â nhw'n symlach o lawer
- mae mesuryddion clyfar yn cynnig mwy o ffyrdd i chi dalu am eich ynni. Gallwch chi ddewis talu am ynni ymlaen llaw, gan ychwanegu credyd ar-lein neu mewn siopau neu gallwch dalu am ynni ar ôl i chi ddefnyddio fe trwy daliad debyd uniongyrchol misol neu chwarterol
- mae mesuryddion clyfar yn cyfrifo'r bil terfynol yn gywir wrth newid tenantiaethau, gan ostwng y tebygolrwydd o anghydfod rhwng tenantiaid a landlordiaid
- gall mesuryddion clyfar eich helpu i wella'ch effeithlonrwydd ynni trwy helpu chi i ddeall faint o ynni yr ydych chi a'ch offer yn ei ddefnyddio

